**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

25 Hydref 2022

**Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)**

Annwyl Llyr

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith a gyhoeddwyd ar 10 Hydref mewn perthynas â Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) ('y Bil')

Gweler fy ymateb isod i'r set o argymhellion yn yr adroddiad nad oedd modd imi roi sylw llawn iddynt yn ystod Cyfnod 1 y Drafodaeth ynghylch Egwyddorion Cyffredinol ar 11 Hydref 2022.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu heddiw at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid i amlinellu fy ymateb i'w hargymhellion.

**Argymhelliad 1**
Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth sy'n nodi'r gyfres o fentrau y mae'n bwriadu eu cyflwyno i leihau llygredd plastig. Bydd hyn yn rhoi eglurder i randdeiliaid a sicrwydd i fusnesau a fydd angen cynllunio buddsoddi mewn cynhyrchion amgen.

**Ymateb**
Rwy'n gwrthod yr argymhelliad hwn. Mae'r Bil yn cyd-fynd â'n cyfres ehangach o fesurau sydd â'r nod o ddiogelu a gwella ein hamgylchedd. Mae ein cyfeiriad strategol ar gyfer mynd i'r afael â phlastigau eisoes yn cael ei amlinellu yn ein Strategaeth Economi Gylchol (Mwy nag Ailgylchu | LLYW.CYMRU) a'r fersiwn ddrafft o'n Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru (Cynllun Atal Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru | LLYW.CYMRU). Mae'r rhain yn amlinellu ein nod o newid i economi gylchol yng Nghymru, lle rydym yn osgoi llygredd plastig a phob math arall o wastraff, a lle rydym yn parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo modd. Mae hyn yn rhan allweddol o'r camau sydd eu hangen mewn perthynas â newid hinsawdd, ac mae hefyd yn darparu llawer o gyfleoedd economaidd fel rhan o'r broses o newid i economi carbon isel.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym ni yn y Llywodraeth yn cytuno bod mynd i'r afael â llygredd plastig yn rhan allweddol o'n hymdrechion, a bydd angen gweithredu mewn ffordd gynhwysfawr ac uchelgeisiol. Fodd bynnag, mae'r problemau sy'n gysylltiedig â llygredd plastig hefyd yn berthnasol i ddeunyddiau eraill, gan fod defnyddio eitem unwaith yn unig, neu fethu â chael gwared ar ddeunyddiau yn y ffordd gywir, fel rheol yn arwain at lygredd amgylcheddol ac yn gwastraffu adnoddau gwerthfawr. Felly, mae angen ffordd strategol o weithredu nid yn unig i fynd i'r afael â'r broblem hon mewn perthynas â phlastig, ond hefyd ar gyfer deunyddiau eraill, gan gydnabod bod natur untro y ffordd rydym yn defnyddio adnoddau yn rhan allweddol o'r broblem

Rydym wedi cyflwyno cynnig yn y Bil i sicrhau ein bod yn dryloyw ynghylch unrhyw gynhyrchion plastig untro rydym yn bwriadu eu hychwanegu neu eu tynnu yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei gyflawni o dan adran 79(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar eu hystyriaethau ynghylch a ddylent ychwanegu neu dynnu cynnyrch. Bydd yr ystyriaethau hyn yn cael eu llywio gan gyngor arbenigol a thrafodaethau â rhanddeiliaid.

Byddwn yn rhannu gwybodaeth a chanllawiau i ategu unrhyw bolisïau yn y dyfodol i wahardd neu i gyfyngu ar gynhyrchion untro. Yn ogystal, rydym yn sefydlu panel cynghori annibynnol ar gyfer cynhyrchion untro. Bydd y panel hwn yn adolygu cynnydd ein cynigion polisi a deddfwriaethol, drwy fonitro prosiectau ar gyfer cynhyrchion penodol. Rydym hefyd yn bwriadu cyflwyno gwelliannau yn ystod Cyfnod 2 a fydd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio canllawiau ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ynghylch unrhyw gynigion yn y dyfodol i wahardd neu gyfyngu ar gynnyrch.

**Argymhelliad 2**
Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i nodi ar wyneb y Bil y darnau amrywiol o ganllawiau a fydd yn cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, naill ai o ganlyniad i ymrwymiadau a roddwyd gan y Gweinidog neu o ganlyniad i argymhellion gan bwyllgorau'r Senedd.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Yn ystod sesiynau craffu'r pwyllgor cadarnheais i, yn amodol ar y Senedd yn cymeradwyo'r Bil, y byddwn yn gweithio gyda busnesau, defnyddwyr ac awdurdodau lleol i ddeall y newidiadau mae'r ddeddfwriaeth hon yn eu cyflwyno. Rwyf hefyd wedi cytuno i gyflwyno gwelliant i'r Bil yn ystod Cyfnod 2, i roi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ynghylch y cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu gwahardd o dan y Bil, a'r esemptiadau a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen.

**Argymhelliad 3**
Dylai'r Gweinidog ddatblygu rhaglen barhaus o addysg a chyhoeddusrwydd i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd am yr egwyddorion sy'n sail i'r Bil a'r angen i leihau llygredd plastig.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad. Yn amodol ar y Senedd yn cymeradwyo'r Bil, byddwn yn gweithio gydag amrediad o grwpiau a sefydliadau i ddatblygu canllawiau a rhannu gwybodaeth i ategu'r gwaith o roi'r Bil ar waith. Bydd hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth i helpu i egluro'r cynhyrchion sy'n cael eu gwahardd ac i dynnu sylw at opsiynau amgen addas.

Byddwn yn parhau i weithio'n agosach gyda busnesau, gweithgynhyrchwyr, grwpiau sector cyhoeddus, cymunedau ac eraill i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ailddefnyddio yn hytrach na dibynnu ar gynhyrchion untro. Bydd hyn yn cynnwys rhannu negeseuon ynghylch atal sbwriel yn ehangach, ac annog pobl i roi eu gwastraff yn y bin neu fynd ag ef adref os nad oes bin ar gael.

**Argymhelliad 4**
Dylai'r Gweinidog sicrhau bod ymdrechion i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, cyflenwyr, a manwerthwyr hefyd yn mynd i'r afael â'r risg o gynhyrchion amgen nad ydynt wedi'u gwahardd ond sy'n niweidiol i'r amgylchedd er hynny.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rwy'n cytuno, fel rhan o'n cyfathrebu ehangach a chodi ymwybyddiaeth o'r Bil, fod rhaid inni annog pobl i ystyried a oes angen cynnyrch untro penodol, ni waeth beth yw'r deunydd. Fel rhan o'n gwaith parhaus byddwn yn tynnu sylw at unrhyw risgiau posibl neu ganlyniadau anfwriadol defnyddio opsiynau yn lle plastig.

Bydd unrhyw negeseuon ynghylch yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r cynhyrchion rydym yn eu gwahardd, neu'n cyfyngu arnynt, yn cael eu hystyried yn ofalus ac yn cael eu datblygu ar y cyd â phartneriaid.

**Argymhelliad 5**
Dylai'r Gweinidog gyflwyno canllawiau ar ddewisiadau amgen derbyniol i'r eitemau plastig untro sy'n cael eu gwahardd. Dylai'r Gweinidog ymrwymo i fynd ati'n rheolaidd i adolygu'r rhestr.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Yn amodol ar y Senedd yn derbyn y Bil, byddwn yn cyhoeddi canllawiau cynhwysfawr i helpu busnesau, defnyddwyr ac awdurdodau lleol, a fydd yn cynnwys cyngor ar opsiynau amgen addas. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn addas i'r diben.

I ategu hyn, rydym yn sefydlu panel cynghori annibynnol ar gynhyrchion untro. Bydd y panel hwn yn adolygu cynnydd ein cynigion polisi a deddfwriaethol, drwy fonitro prosiectau ar gyfer cynhyrchion penodol. Bydd y panel hefyd yn gallu rhoi cyngor arbenigol ar addasrwydd cynhyrchion amgen. Byddwn yn sefydlu mecanweithiau priodol ar gyfer cynnwys a chydweithio â rhanddeiliaid wrth inni ddatblygu a chyflwyno ein cynigion.

**Argymhelliad 6**
O ystyried bod y Gweinidog wedi dweud mai ei bwriad yw y dylai'r gwaharddiad ddod i rym cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfnod segur o chwe mis, dylai'r Gweinidog egluro'n ysgrifenedig y camau sydd ar waith i helpu busnesau, cyflenwyr ac awdurdodau lleol i baratoi.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Byddwn yn cydweithio â busnesau ac awdurdodau lleol i ddatblygu ein canllawiau yn ystod y misoedd nesaf. Er nad ydym yn ystyried pecyn cymorth penodol ar gyfer y Bil hwn, mae gwasanaeth Busnes Cymru Llywodraeth Cymru yn cynnig amrywiaeth o gymorth a fydd yn helpu busnesau gyda phwysau ariannol yn ystod y misoedd nesaf. Mae Cynghorwyr Effeithlonrwydd Adnoddau hefyd yn gallu helpu busnesau i fabwysiadu neu wella strategaethau amgylcheddol, a gweithio gyda busnesau tuag at greu busnes cydnerth sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

**Argymhelliad 7**
Dylai'r Gweinidog roi'r diweddaraf i'r Senedd am unrhyw asesiad y mae wedi'i wneud o faint o gynhyrchion amgen sydd ar gael yn y tymor byr.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Fel rhan o'r broses ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, archwiliodd ein hymchwil argaeledd a chost opsiynau amgen. Nododd y gwaith hwn fod llawer o fusnesau eisoes wedi dechrau cefnu ar gynhyrchion plastig untro yn wirfoddol (er enghraifft drwy Ymrwymiad y DU ar Blastigau gan WRAP) neu o ganlyniad i waharddiadau yn rhannau eraill y DU neu'n fyd-eang. Mae enghreifftiau yn cynnwys gweithgynhyrchwyr mawr a chadwyni archfarchnadoedd yn newid i ffyn cotwm wedi'u gwneud o bapur, a chaffis a busnesau tecawê ledled Cymru yn defnyddio cytleri a throellwyr pren.

Rydym yn cydweithio â rhanddeiliaid i ddatblygu cyngor a chanllawiau ar gynhyrchion amgen. Bydd y Bil hwn yn darparu cyfle i bobl feddwl mewn ffordd wahanol o ddydd i ddydd, gan ddewis cynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, a defnyddio eitemau untro dim ond pan nad oes opsiwn arall.

**Argymhelliad 8**
Dylai'r Gweinidog roi ymrwymiad y caiff yr adolygiad ôl-weithredu ei gynnal yn ystod y tymor Senedd hwn. Os na all hi wneud hynny, rydym yn credu y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i gynnwys gofyniad am adolygiad ar ôl gweithredu ar wyneb y Bil, a hynny er mwyn sicrhau y caiff ei gynnal gan Lywodraeth nesaf Cymru

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Rwyf eisoes wedi addo y bydd Llywodraeth cymru yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r Bil. Fodd bynnag, efallai y bydd angen caniatáu rhagor o amser ar gyfer hyn, er mwyn i'r ddeddfwriaeth gael ei sefydlu. Rwy'n argymell bod adolygiad yn cael ei gynnal o fewn pum mlynedd i'r gwaharddiadau a'r cyfyngiadau ddod i rym, fan bellaf. Bydd hwn yn archwilio effeithiau posibl y gweithredu ategol i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur, drwy leihau nifer y cynhyrchion plastig untro sy'n cael eu sbwriela, lleihau'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio mewn ffordd wastraffus, a newid ymddygiad defnyddwyr er mwyn defnyddio opsiynau mwy cynaliadwy.

**Argymhelliad 9**
Dylai'r Gweinidog egluro pam nad yw'r Bil yn gwahardd gweithgynhyrchu plastigau untro yng Nghymru.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad. I sicrhau cysondeb ac eglurder ar gyfer busnesau, ni chafodd gwaharddiad ar weithgynhyrchu'r eitemau hyn ei gynnwys yn ein cynigion, yn unol â safbwynt yr Undeb Ewropeaidd a Lloegr. Mae'r rhan fwyaf o'r cynhyrchion sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn cael eu gweithgynhyrchu y tu allan i Gymru. Felly, byddai gwahardd eu

gweithgynhyrchu yng Nghymru yn cael effaith gyfyngedig ar faint o gynhyrchion plastig untro sy'n cael eu defnyddio yng Nghymru o ddydd i ddydd. Nod canolbwyntio ar gyflenwi cynhyrchion i ddefnyddwyr yng Nghymru yw cael effaith real a phwysig ar faint o wastraff sy'n cael ei greu drwy eitemau plastig untro sy'n cael eu sbwriela. Mae'n bosibl y bydd gwahardd cyflenwi'r eitemau hyn yng Nghymru, ac mewn gwledydd eraill, yn arwain at lai o'r cynhyrchion hyn yn cael eu cynhyrchu, yng Nghymru ac mewn mannau eraill, wrth i weithgynhyrchwyr newid i gynhyrchu cynhyrchion eraill.

**Argymhelliad 10**
Dylai'r Gweinidog egluro ei bwriadau ar gyfer plastigau ocso-ddiraddiadwy mewn perthynas â'r Bil.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Cadarnhaf ein bod yn bwriadu cyflwyno'r gwaharddiad ar blastigau ocso-ddiraddiadwy erbyn diwedd y tymor Senedd hwn, yn dilyn cefnogaeth ar gyfer eu cynnwys yn ein hymgynghoriad yn 2020. Fodd bynnag, mae hwn yn faes cymhleth ac mae'r ymchwil yn parhau. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried y dystiolaeth a gafodd ei darparu yn ystod Cyfnod y Pwyllgor a thrwy ganfyddiadau adroddiad y Pwyllgor ar y mater hwn.

**Argymhelliad 11**
Fel rhan o'u hystyriaethau ynghylch a ddylid cynnwys weips gwlyb ar y rhestr, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gallai annog neu addysgu'r cyhoedd ynghylch problemau o fewn y system garthffosiaeth o ganlyniad i fflysio eitemau nad ydynt yn addas i'w fflysio. Byddai hyn yn berthnasol i weips gwlyb nad ydynt yn blastig. Dylai hefyd ystyried yr effaith ar rai lleoliadau lle mae weips gwlyb yn cael eu defnyddio i atal haint.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym yn parhau i weithio gyda chwmnïau dŵr, gweithgynhyrchwyr, y byd academaidd a manwerthwyr mewn perthynas â'r problemau mae gwaredu eitemau mewn ffordd anghywir yn eu peri. Ein nod yw penderfynu pa gamau a fyddai'n effeithiol wrth leihau'r difrod maent yn ei achosi. Mae'r Bil yn ei gyfanrwydd yn allweddol wrth annog newid ymddygiad cadarnhaol mewn perthynas â'r amgylchedd, a chefnu ar y diwylliant ehangach o ddefnyddio eitemau unwaith a'u taflu.

Rydym yn cydnabod mai un elfen yn unig yw ymyriadau rheoleiddiol, fel gwahardd cynhyrchion penodol, mewn pecyn ehangach sy'n gallu arwain at fanteision cadarnhaol i'r amgylchedd a newid ymddygiad. Mae newid ymddygiad yn allweddol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a lleihau yn sylweddol nifer y cynhyrchion untro sy'n cael eu defnyddio.

**Argymhelliad 12**
Dylai'r Gweinidog baratoi canllawiau sy'n esbonio sut y dylai cyflenwyr gymhwyso'r esemptiadau ar gyfer gwellt yn sgil cyflyrau iechyd neu anableddau. Ni ddylai pobl â chyflyrau iechyd neu anableddau fod o dan y chwyddwydr o ganlyniad i'r ddarpariaeth hon. Yn benodol, dylai'r canllawiau ateb y cwestiwn o sut y disgwylir i gyflenwr ddod i 'gredu'n rhesymol' bod angen gwelltyn ar berson am resymau anabledd.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Gallaf gadarnhau y bydd ein canllawiau'n mynd i'r afael yn benodol â'r pryderon hyn a gafodd eu lleisio mewn perthynas â darparu gwellt yfed plastig untro.

Drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil, rydym wedi trafod â grwpiau â nodweddion gwarchodedig mewn ffordd ragweithiol, gan roi cyfleoedd iddynt wneud sylwadau ar ein cynigion, wrth inni fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Rydym wedi gwrando ar y pryderon maent wedi eu lleisio ac wedi cynnwys esemptiadau yn unol â'r rhain. Rydym wedi cynnal trafodaethau tebyg â busnesau. Mae'r trafod hwn wedi ein helpu i ddatblygu drafft cyntaf y canllawiau i ategu'r gwaharddiadau. Byddwn yn parhau i drafod â grwpiau â nodweddion gwarchodedig a busnesau wrth inni ddatblygu ymhellach y canllawiau yn y misoedd nesaf.

Yn ogystal â darparu eglurder ar gyfer unigolion a busnesau ynghylch y cynhyrchion a fydd yn cael eu gwahardd a'r camau y bydd rhaid iddynt eu cymryd i baratoi ar gyfer y gwaharddiadau hyn, bydd y canllawiau'n amlinellu gwybodaeth am y ffordd y bydd cynhyrchion sy'n cael eu hesemptio'n parhau i fod ar gael. Mae hyn yn cynnwys sut y gall unigolion sy'n dibynnu ar wellt plastig untro i fwyta ac i yfed mewn modd diogel ac annibynnol yn gallu parhau i gael gafael ar y rhain, a beth y dylai busnesau ei wneud i sicrhau bod y rhai y mae angen y cynhyrchion hyn arnynt yn gallu parhau i gael mynediad atynt. Bydd hyn yn sicrhau y bydd gwellt plastig untro yn parhau i fod ar gael i'r rhai sy'n dibynnu arnynt, er mwyn cefnogi pobl sydd â nodweddion gwarchodedig i fyw'n annibynnol, ac i gael eu cynnwys a chymryd rhan gyfartal yn y gymdeithas.

Rydym yn gwybod bod pobl anabl yn poeni am yr amgylchedd ac yn dymuno chwarae eu rhan, ond nid ydynt am ddioddef o ganlyniad i ragfarn ac agweddau negyddol am barhau i ddefnyddio cynhyrchion maent yn dibynnu arnynt er mwyn bod yn ddiogelu neu ofalu amdanynt eu hunain. Byddwn yn sicrhau bod y canllawiau yn rhannu'r negeseuon cywir yn hyn o beth. Rydym yn deall bod rhoi'r canllawiau ar waith yr un mor bwysig â'r hyn sydd wedi'i ysgrifennu ynddynt. Drwy drafodaethau â grwpiau â nodweddion gwarchodedig a busnesau, byddwn yn penderfynu ar y fformatau a'r ieithoedd ar gyfer darparu'r canllawiau, o ystyried yr amrediad o anghenion cyfathrebu sydd ar bobl a natur ryngwladol y sectorau lletygarwch ac arlwyo.

**Argymhelliad 13**
Dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i'w gwneud yn ofynnol cynnal ymgynghoriad llawn a chyhoeddus cyn cyflwyno rheoliadau i ddiwygio'r Atodlen

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Fel y nodais i yn ystod Cyfnodau'r Pwyllgor ac yn y Cyfarfod Llawn, byddaf yn sefydlu proses gadarn a thryloyw ar gyfer ystyried cynhyrchion y mae'n bosibl y byddant yn cael eu cynnwys yn Atodlen y Bil yn y dyfodol. Byddwn yn cyflwyno gwelliant a fydd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar unrhyw reoliadau arfaethedig yn y dyfodol.

**Argymhelliad 14**
Rhaid i'r Gweinidog egluro sut y mae hi wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol ynghylch eu capasiti i wneud gwaith 'ymgysylltu ac addysgu' gyda chyflenwyr.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol unigol i sicrhau bod canllawiau priodol yn cael eu cynhyrchu ar y cyd ac i benderfynu a oes angen hyfforddiant ychwanegol i gyflawni gofynion y Bil. I ddechrau byddwn yn canolbwyntio ar addysg a thrafodaethau â manwerthwyr a chynrychiolwyr busnes cyn cymryd camau gorfodi.

**Argymhelliad 15**
Rhaid i'r Gweinidog egluro pa gymorth, boed yn ariannol neu fel arall, y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i awdurdodau lleol er mwyn gwneud gwaith ‘ymgysylltu ac addysgu’ gyda chyflenwyr.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol unigol i sicrhau bod canllawiau priodol yn cael eu cynhyrchu ar y cyd ac i benderfynu a oes angen hyfforddiant ychwanegol i gyflawni gofynion y Bil. I ddechrau byddwn yn canolbwyntio ar addysg a thrafodaethau â manwerthwyr a chynrychiolwyr busnes cyn cymryd camau gorfodi.

**Argymhelliad 16**
Rhaid i’r Gweinidog egluro pa gymorth, yn ariannol neu fel arall, a fydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer camau gorfodi, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf.

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae'r dyletswyddau gorfodi o dan y Bil wedi'u cysylltu'n agos â chyfrifoldebau amgylcheddol presennol awdurdodau lleol mewn perthynas â'u hardaloedd. Felly mae'n briodol iddynt gymryd camau gorfodi mewn perthynas â throseddau o dan y Bil.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn gyfrifol am reoli a gwaredu sbwriel yn eu hardaloedd. Mae hefyd ganddynt gyfrifoldebau mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a safonau masnach. Yn ogystal, mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau statudol presennol i archwilio safleoedd y mae darpariaethau'r Bil yn berthnasol iddynt.

Rydym yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol unigol i ddatblygu canllawiau a hyfforddiant priodol. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos gyda busnesau i gefnogi'r broses o gefnu ar y cynhyrchion untro a restrir yn y Bil. Drwy weithredu yn y ffordd hon, rydym yn disgwyl y bydd y baich ychwanegol ar awdurdodau lleol y bydd y gwaith o orfodi'r Bil yn ei achosi yn fach iawn.

**Argymhelliad 17**
Rhaid i’r Gweinidog egluro sut y bydd yn sicrhau bod cyflenwyr y tu allan i  Gymru yn ymwybodol y byddant yn cyflawni trosedd os byddant yn cyflenwi eitem blastig untro waharddedig i berson yng Nghymru

**Ymateb**
Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae fy swyddogion eisoes wedi dechrau cyhoeddi'r Bil a'i ofynion drwy newyddlenni masnach. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill i gyrraedd y gynulleidfa briodol er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yng Nghymru a'r tu allan yn ymwybodol o'r drosedd newydd.

Yn gywir

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd